

Cyfeiriad Strategol Athrofa Padarn Sant 2023-2028¹

Athrofa Padarn Sant yw athrofa'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer ffurfiant, addysg ddiwinyddol, datblygu gweinidogaeth, ac ymchwil, ac mae wedi'i chomisiynu i weithio yn y meysydd a ganlyn:

Craidd

- **Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd**, sy'n darparu addysg ddiwinyddol hygyrch ar lefel addysg uwch ar gyfer disgyblaeth yn yr Eglwys yng Nghymru, i bobl leyg, Gall hefyd fod o gymorth i ddirnadaeth galwedigaethol yn ogystal a datblygiad parhaus i weinidogion.
- **Ffuriant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig**, sy'n darparu rhaglenni ffurfiannol hygyrch, o safon i bawb a noddir gan esgobion yr Eglwys yng Nghymru, i hyfforddi i weinidogaethau trwyddedig ordeiniedig neu leyg.
- **Gweinidogion Trwyddedig Newydd**, sy'n darparu cymorth hygyrch o safon i bawb sydd newydd eu trwyddedu gan esgobion yr Eglwys yng Nghymru yn weinidogion trwyddedig ordeiniedig neu leyg, a'u goruchwylwyr hyfforddiant. Mae hefyd yn cynnwys rhaglen arbennig i'r rhai sy'n dechrau mewn 'swyddi cyfrifoldeb cyntaf' cyflogedig.
- **Datblygiad Parhaus i Weinidogion**, sy'n darparu hyfforddiant ac adnoddau cenedlaethol sydd wedi'u targedu ar gyfer datblygiad parhaus i weinidogion lleyg a chlerigion, gan gynnwys y cynllun Adolygiad o ddatblygiad Gweinidogion (MDR); cynadleddau rheolaidd megis Croeso i'r Eglwys yng Nghymru, rhaglen cyn ymddeol, a'r rhaglen LLM genedlaethol; cyrsiau i hyfforddi Cyfarwyddwyr Ysbrydol a Chaplaniaid Anna; rhaglenni i gefnogi gweinidogaeth gydweithredol; ac i ymateb i anghenion newidiol yr eglwys genedlaethol ym maes Datblygu Parhaus i Weinidogion fel y'u mynegir trwy'r esgobion.

Ategol

Mae angen i'r gweithgareddau yn y categori 'ategol' yma fodloni'r meini prawf eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at genhadaeth yr Eglwys yng Nghymru; yn gyson â gweithgareddau eraill yr Athrofa a'i meysydd arbenigedd; yn gwella enw da'r Athrofa a/neu'r Eglwys yng Nghymru; ac yn ysgogi a chyfoethogi'r Athrofa fel cymuned ddysgu Gristnogol.

- **Rhaglenni Diwinyddiaeth ar Lefel Meistr**, sy'n darparu rhaglenni diwinyddol hygyrch ar lefel meistr sy'n cynnwys arferion myfyriol ac academaidd-drylwyr i ateb anghenion yr Eglwys mewn cenhadaeth a gweinidogaeth. Ar hyn o bryd, mae tair rhaglen – Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth; Caplaniaeth; ac Arbenigwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. *Mae'r rhaglenni hyn yn blaenoriaethu aelodau o'r Eglwys yng Nghymru, ond yn cynnwys ystod ehangach o ddysgwyr, i sicrhau cymuned ddysgu gref, amrywiol a chwarae rhan gadarnhaol yn yr eglwys ledled y Deyrnas Unedig, gan sicrhau yr un pryd fod cynnwys dysgwyr o'r tu allan i'r Eglwys yng Nghymru bob amser yn fuddiol yn ariannol iddi.*
- **Rhwydweithiau Cenedlaethol**, sy'n dwyn ynghyd, yn ysgogi ac yn galluogi'r rhai ar draws yr eglwys genedlaethol sy'n ymwneud â gweinidogaethau penodol. Yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer hybu'r gweinidogaethau hyn, gan weithio bob amser ar y cyd â'r esgob sy'n gyfrifol am y portffolio perthnasol. Ar hyn o bryd, mae tri rhwydwaith – Cenhadaeth Cyfrwng Cymraeg; Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd; ac Arloeswyr.

¹ Y cytunwyd arni gan Fainc yr Esgobion, 25 Gorffennaf 2023.

Sail yr holl waith hwn yw cryfder parhaus Athrofa Padarn Sant fel cymuned ddysgu Gristnogol. Ochr yn ochr â nerth ei hysbrydolrwydd Anglicanaidd, ei galwad genhadol a'i hymrwymiad i'r Eglwys yng Nghymru gyfan, mae gofyn hefyd am gyllid cadarn a phroffesiynoldeb gweithredol; tîm staff cryf, llawn cymhelliant, amrywiol; diwylliant dwyieithog; partneriaethau cynhyrchiol â phrifysgolion, colegau diwinyddol, ac eraill; a fframwaith polisi a gweithdrefnol cadarn, gan fodloni'r gofynion ynglŷn â sicrhau ansawdd a gofynion rheoleiddiol eraill ar gyfer Sefydliad Addysg Uwch, a sicrhau profiad dysgu o'r safon uchaf.

Mae'r Athrofa'n chwarae ei rhan lawn mewn cydweithrediad â'r eglwys ehangach, i hybu cynwysoldeb mewn meysydd fel rhywedd, rhywioldeb, gwahaniaeth diwinyddol a defnyddio'r Gymraeg.

Datblygol

Dros y pum mlynedd 2023-2028, bydd Athrofa Padarn Sant yn canolbwyntio ar y saith maes a ganlyn:

1. **Ehangu Cyfranogiad**, gan ganolbwyntio'n benodol ar ethnigrwydd, anabledd, oedran a chyflawniad addysgol blaenorol is. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar y ffactorau hyn yng nghyfansoddiad y gymuned dysgwyr a staff, a galluogi dysgwyr ar draws e rhaglenni i gefnogi ac adeiladu cynulleidfaoedd Cristnogol sy'n ymgorffori amrywiaeth llewyrchus ar draws y ffactorau hyn. Un offeryn yn y maes hwn yw'r rhaglen brentisiaeth.
2. **Datblygu Arweinyddiaeth Clerigwyr**, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n dal rolau arwain ym meysydd gweinidogaeth/cenhadaeth a rolau eraill o gyfrifoldeb ehangach.
3. **Rhagoriaeth mewn Ffuriant**, gan adeiladu ar y llwyddiant presennol, ond gan hoelio sylw ar gynyddu ansawdd ffuriant, bywyd gweddi, ehangder y traddodiad Anglicanaidd a chadernid canlyniadau ffuriant mewn cyd-destun gweinidogol a diwylliannol sy'n newid yn gyflym.
4. **Tegwch Daearyddol**, gan sicrhau bod y llwybrau ffurfiannol o'r ansawdd uchaf ar gyfer gweinidogaeth gyflogedig ar gael i'r rhai sy'n bell yn ddaearyddol o Gaerdydd.
5. **Rhagoriaeth Addysgol**, gan gynnal a gwella enw da'r Athrofa fel sefydliad Addysg Uwch, gan gynnwys ymateb i heriau a chyfluoedd AI, ffurfiau asesu sy'n newid, datblygu enw da ysgolheigaidd y tîm staff, chwarae rhan lawn yn ecosystem addysg uwch mewn diwinyddiaeth (goruchwyllo, arholi allanol, gwasanaethu ar bwylgorau ac adolygiadau pwnc), datblygu cyfryngau addas ar gyfer prosiectau ymchwil mewn diwinyddiaeth ac arferion gweinidogaeth/cenhadaeth a lledaenu'r canlyniadau.
6. **Safle'r Athrofa yng Nghaerdydd**, gan sicrhau ei fod yn ased hirdymor i'r Eglwys yng Nghymru, yn cael ei ddatblygu yn unol â'n huchelgais di-garbon, sy'n addas at y diben yn ysbrydol, yn addysgol ac yn weithredol, fel cartref athrofa ddiwinyddol yr Eglwys yng Nghymru.
7. **Rhannu Adnoddau gyda'r Eglwys ehangach yng Nghymru**, gan sicrhau bod adnoddau'r athrofa, deallusol, ysbrydol a chorfforol yn cael eu rhannu'n briodol â'r Eglwys ehangach. Rhagwelir hyn mewn tri phrif faes:
 - (a) Cefnogi clerigwyr ac esgobaethau drwy gynnig; mynediad at adnoddau dysgu, defnydd o safle'r Athrofa yng Nghaerdydd, arbenigedd y staff mewn ymgynghori a siarad, a diweddariadau ar ddatblygiadau mewn diwinyddiaeth, gweinidogaeth ac arferion cenhadol.
 - (b) Cyfrannu arbenigedd ac adnoddau at waith yr Eglwys i ddatblygu gweinidogaethau llewg a gomisiynwyd a disgyblaeth leyg ehangach.
 - (c) Cyfrannu arbenigedd ac ymchwil at ffocws yr Eglwys ar genhadu ac efengylu.